Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**19eg Mehefin 2024**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Adroddiad arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi: Fetio a gwrth-lygredd, rhan 2: Pa mor effeithiol yw'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wrth ymdrin â llygredd?**

Roedd yn ddiddorol darllen yr adroddiad treiddgar sy'n ystyried effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wrth gefnogi heddluoedd i nodi a mynd i'r afael â llygredd sy'n ymwneud â swyddogion a staff yr heddlu.

Trafodais yr adroddiad arolygu a'r argymhelliad mewn cyfarfod o'm Bwrdd Plismona, lle rwy'n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif, ar 11 Mehefin 2024. Roedd set o gwestiynau wedi eu cyflwyno i Heddlu Dyfed-Powys ymlaen llaw a chafwyd ymateb cynhwysfawr gan Bennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol.

Roedd un argymhelliad yn yr adroddiad yn benodol i wasanaethau heddlu:

**<u>Argymhelliad 1</u>**

**Erbyn 30 Mehefin 2024, dylai prif gwnstabliaid sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol am ganlyniad ymchwiliadau i adroddiadau o weithgaredd amheus yn ymwneud â phersonél eu heddlu. Dylai'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol gynnwys crynodeb o'r wybodaeth hon yn ei hasesiad strategol cenedlaethol blynyddol o fygythiad, 'The Threat to UK Law Enforcement from Corruption'.**

Rwyf wedi cael gwybod bod Heddlu Dyfed-Powys wedi cael wyth adroddiad uniongyrchol o weithgaredd amheus yn ystod y pum mlynedd diwethaf gan Uned Cudd-wybodaeth Ariannol y DU yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a dau adroddiad o weithgaredd amheus trwy drydydd partïon (fel heddlu arall). Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnal adolygiad o'r rhain i benderfynu a oedd yr heddlu wedi cymryd y camau perthnasol. O ganlyniad, mae camau gweithredu sydd eu hangen i wella'r broses wedi'u nodi i sicrhau bod diweddariadau'n cael eu cyflwyno i Uned Cudd-wybodaeth Ariannol y DU yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol o fewn 14 diwrnod i dderbyn yr adroddiad gweithgaredd amheus.

Er fy mod yn fodlon ar ddull gweithredu Heddlu Dyfed-Powys, byddaf yn adolygu cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn drwy Fwrdd Sicrwydd Adran Safonau Proffesiynol fy swyddfa dros y flwyddyn i ddod.